Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 25 Tachwedd 2016 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2016/17 – Adolygiad i 30 Fedi 2016** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2016/17.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae adolygiad i 30 Fedi 2016 yn amcangyfrif gorwariant net o £57,009 yn erbyn y gyllideb, a gellid cysylltu'r gorwariant net yn bennaf gyda'r oedi yn sefydlu strategaeth barhaol ar gyfer gweithredu'r targed arbedion gosodwyd yng nghyllideb 2016/17.

1.2 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:**
**Medi: gorwariant £38,841.**

Prif reswm am y gorwariant yw'r penderfyniad i secondio swyddog ychwanegol i'r tîm data heb gyfraniad ariannol ychwanegol gan yr Awdurdodau yn y flwyddyn gyllidol 2016/17. Mi fydd yr Awdurdodau yn darparu cyfraniad ariannol ychwanegol parhaol o 2017/18.

2.2 **Gweithwyr - Ymgynghorwyr Her:**
**Medi: tanwariant (£103,013).**

Mae'r GwE yn derbyn cyfraniad gan rhai o'r grantiau tuag at eu costau Rheoli/Gweinyddu. Yn ystod y flwyddyn gyllidol 2016/17 ymdopir gydag elfen o'r gwaith grantiau oddi fewn adnoddau craidd.

2.3 **Cludiant:**
**Medi: tanwariant (£10,000).**

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb, rhagwelir bydd hyn yn parhau yn 2016/17.

2.4 **Arbedion i'w darganfod:**
**Medi: gorwariant £131,180.**

Gorwariant gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r targed arbedion.

Gan ystyried oblygiadau ariannol net yr adolygiad ar gyfer gweddill penawdau'r gyllideb, yn unol â'r hyn grybwyllwyd yn y cyfarfod 24 Chwefror 2016 wrth ystyried cyllideb 2016/17, defnyddir rhan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer unrhyw lithriad gydag amserlen gweithredu'r targed arbedion.

*Cyd Bwyllgor 24 Chwefror 2016*
*"3.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer unrhyw elfen o'r targed arbedion ni all GwE ei ddarganfod yn ystod 2016/17."*

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2016/17 oedd (£460,379), llai defnydd o'r gronfa o £100,100 wedi ei ymrwymo ar ddiwedd 2015/16 ar gyfer rhaglen gefnogaeth TGAU, llai'r amcangyfrif gorwariant net o £57,009, rhagwelir cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2016/17 yn (£303,270).

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2016/17 – Adolygiad i 30 Fedi 2016.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.